Iaith y Corff yn y Chwedlau Canoloesol Cymraeg

Lowri Hâf Morgans

Traethawd a gyflwynir am radd MPhil
Prifysgol Aberystwyth
Ionawr 2011.

Crynodeb

Er bod cryn dipyn o waith ymchwil wedi ei wneud yn barod ar y chwedlau canoloesol Cymraeg gan nifer o ysgolheigion ar draws y byd, nid oes neb wedi ymchwilio i iaith y corff, ei phwysigrwydd a'i swyddogaeth yn y rhyddiaith ganoloesol Gymraeg. Sylwais yn ogystal fod y pwnc wedi cael ei olrhain yn barod yn y llenyddiaeth Ffrangeg, yn llenyddiaethau Groeg a Rhufain a hefyd yn yr iaith Saesneg, yn enwedig gwaith Chaucer. Y mae'r maes hwn yn ogystal wedi cael ei archwilio'n rhannol yn barod o safbwynt y celfyddydau megis celf a drama. Gwelais felly fod yna fwlch amlwg yma o ran astudiaethau ar iaith y corff mewn llenyddiaeth ganoloesol Gymraeg. Bwriadaf edrych yn fanwl iawn ar yr un ar ddeg o chwedlau canoloesol Cymraeg sef *Y Pedair Cainc, Y Tair Rhamant, Cyfranc Lludd a Llefelys, Breudwyt Maxen Wledic, Breudwyt Ronabwy* a *Kulhwch ac Olwen* gan chwilio am enghreifftiau gwahanol o iaith y corff yn y testunau yma.

Rwyf wedi penderfynu rhannu'r traethawd yn chwe phennod. Yn y bennod gyntaf trafodaf y gwaith theoretig yn gyffredinol ar y corff. Yn yr ail edrychaf yn benodol ar bryd a gwedd cymeriadau gan ganolbwyntio ar wallt, rhannau o'r corff sy'n cael sylw penodol a hefyd disgrifiadau o gymeriadau. Yn y drydedd bennod trafodaf y côd ymddygiad gan edrych ar sut y mae pobl yn cyfarch ei gilydd ac ymddygiad sefyllfaoedd arbennig. Yn y bedwaredd bennod rhoddaf sylw i safleoedd cymeriadau gan edrych yn benodol ar bwy sydd â'r pŵer yn y sefyllfaoedd hyn. Yna yn y bumed bennod fe drafodaf arwyddocâd edrychiadau gwahanol a hefyd y ffordd y mae cymeriadau'n ymserchu yn ei gilydd. Yn y bennod olaf rhoddaf sylw i ystumiau geiriol sydd eto'n dweud llawer wrthym am bersonoliaeth cymeriadau.

Mae'r maes hwn yn gyffrous iawn a gobeithiaf y bydd hyn yn agor drysau i eraill ddilyn yn ôl fy nhroed o safbwynt llenyddiaeth ganoloesol Gymraeg.

Datganiadau a Gosodiadau

DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae **gwasanaethau cywiro*** wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn.

Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod ……... (ymgeisydd)

Dyddiad ……..…….

[* Mae hwn yn cyfeirio at i ba raddau y cywiriwyd y testun gan bobol eraill]

GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lun-gopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....…..

Diolchiadau

Y mae fy nyled yn fawr i'm tiwtoriaid Dr Ian Hughes a'r Athro Marged Haycock am eu cefnogaeth, cymorth a'u cyngor wrth iddynt roi'r hyder i mi ymdrin â phwnc newydd a chyffrous yn ymwneud â'r chwedlau. Mae eu harweiniad a hefyd eu hysbrydoliaeth wedi bod yn enfawr. Diolch hefyd i holl staff yr Adran y Gymraeg am eu parodrwydd i wrando a rhannu syniadau yn ogystal. Hoffwn ddiolch i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen ac i Gyngor Sir Abertawe am yr ysgoloriaethau a'r cymorth ariannol. Yn olaf diolchaf i'm teulu a'm ffrindiau yn enwedig fy nhad a'n chwaer, a hoffwn gyflwyno'r traethawd yma er cof am fy mam a oedd yn gymaint o ysbrydoliaeth i mi.

Rhestr o Fyrfoddau

BM	Roberts, Brynley F., (gol.), *Breudwyt Maxen Wledic* (Dublin, 2005)
BR	Richards, Melville, (gol.), *Breudwyt Ronabwy* (Caerdydd, 1948)
Branwen	Thomson, D.S., (gol.), *Branwen Uerch Lyr* (Dublin, 1976)
Gereint	Thomson, R. L., (gol.), *Ystorya Gereint Uab Erbin* (Dublin, 1997)
KO	Bromwich, Rachel, a Evans, D.S., (goln), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1997)
LlaLl	Roberts, Brynley F., (gol.), *Cyfranc Lludd a Llefelys* (Dublin, 1975)
Manawydan	Hughes, Ian, (gol.), *Manawydan Uab Llyr* (Caerdydd, 2007)
Math	Hughes, Ian, (gol.), *Math Uab Mathonwy* (Aberystwyth, 2000)
Owein	Thomson, R. L., (gol.), *Owein* (Dublin, 1968)
Peredur	Goetinck, Glenys, (gol.), *Historia Peredur vab Efrawc* (Caerdydd, 1976)
Pwyll	Thomson, R. L., (gol.), *Pwyll Pendeuic Dyuet* (Dublin, 1957)

Cynnwys

Rhagymadrodd:	1
Pennod 1: Y Gwaith theoretig ar Iaith y Corff	6
Pennod 2: Pryd a Gwedd	21
Pennod 3: Côd Ymddygiad	55
Pennod 4: Safleoedd Cymeriadau	80
Pennod 5: Cyfathrebu	120
Pennod 6: Ystumiau Geiriol	133
Diweddglo:	149
Llyfryddiaeth:	153